Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Oxfam

Bananas Masnach Deg
Proffiliau Cynhyrchwyr

George De Freitas

Photo: Abigail Hadeed/Oxfam

Mae George yn gweithio i'r cwmni sy'n allforio bananas o Ynysoedd y Gwynt un ogystal â bod yn ffermwr bananas ei hun.

"Mae St. Vincent yn hollol ddibynnol ar fananas. Tra bod cnydau eraill efallai ddim ond yn cael eu cynaeafu unwaith neu ddwy'r flwyddyn, mae bananas yn rhoi incwm wythnosol i bobl. Mae ffermwyr yn plannu cnydau eraill ond mae'r rhain fel arfer yn cael eu defnyddio fel bwyd ar gyfer y teulu.

Mae yna rai pobl ifanc yn dal ar ôl ar y ffermydd ond mae llawer wedi gadael. Mae ffermwyr yn creu darlun mor drist o'r sefyllfa, dyw pobl ifanc ddim eisiau bod yn rhan ohono.

Rydyn ni'n dibynnu'n helaeth ar fedru gwerthu ar bris da i farchnad dda. Petai yna dwf yn y farchnad am fananas yna byddai mwy o bobl yn dod yn rhan o gynhyrchu eto."

Masnach Deg

"Buddiannau Masnach Deg i ni yw'r lleihad effaith y cemegolion ar yr amgylchedd. Mae'r premiwm cymdeithasol hefyd wedi gwneud gwir wahaniaeth. Rydyn ni'n meddwl am agor ysgol feithrin a gwella'r ffyrdd o'n cwmpas ni. Unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i sicrhau bywyd gwell i'r gymuned, fe geisiwn ni ei wneud.

Fe hoffen ni weld marchnad Masnach Deg yn cynyddu gan fod ganddon ni nifer o ffermwyr sydd eisiau bod yn rhan o Fasnach Deg. Maen nhw hefyd eisiau pris teg am fanana sydd wedi di chynhyrchu'n deg.

Regina Joseph

Photo: Abigail Hadeed/Oxfam

Mae Regina yn ffermwr bananas 42 mlwydd oed o Dominca. Mae wedi bod ynghlwm â ffermio bananas ers pan oedd yn 16.

"Rydw i'n treulio'r diwrnod cyfan ar y fferm. Dyw'r fferm ddim yn rhy bell i ffwrdd. Fel arfer mae'r menywod yn gwneud tasgau tebyg i olchi a phacio'r bananas. Weithiau mae fy merch yn fy helpu i bacio, ond rydw i bob amser yn dewis y bananas i'w gwerthu fy hun."

Masnach Deg

"Fe ddechreuais i werthu bananas Masnach Deg y llynedd. Rydw i'n gweld mod i'n cael gwell incwm gyda bananas Masnach Deg."

Deryck Smart

Photo: Abigail Hadeed/Oxfam

Ffermwr bananas 21 mlwydd oed yw Deryck. Mae'n gwerthu bananas Masnach Deg a r sydd ddim yn rai Masnach Deg.

"Y broblem gyda'r bananas nad ydych yn eu gwerthu fel Masnach Deg yw bod y pris yn mynd i fyny ac i lawr drwy'r amser.

Rydw i'n torri bananas bob pythefnos. Mae fy nghariad yn golchi ac yn helpu gyda'r pacio ac weithiau mae fy nhad yn helpu hefyd. Yn y bôn mae'r teulu cyfan yn rhan o'r broses.

Mae fy mam a 'nhad wedi sylwi fel mae pethau'n newid dros y blynyddoedd. Maen nhw'n dweud bod pethau dipyn caletach nawr."

Masnach Deg

"Fe hoffwn i ddiolch i'r bobl yn y Deyrnas Unedig sy'n prynu Masnach Deg. Daliwch i brynu os gwelwch yn dda ac yna gobeithio y bydd y cwotâu yn tyfu ac efallai y gallwn ni wedyn werthu i lefydd fel America a Chanada

Rydyn ni wedi colli llawer yma dros y blynyddoedd. Os na fydd pethau'n gwella yna fe fydd ffermio bananas yn ddiwydiant marw."

Nioka Abbott

Photo: Abigail Hadeed/Oxfam

Mae Nioka wedi bod yn ffermwr bananas ar St Vincent am 15 mlynedd ac mae nawr yn Gadeirydd y Grŵp Masnach Deg lleol.

"Mae yna newidiadau mawr wedi digwydd ers y 1970au. Nawr mae'n ddrutach i gynhyrchu bananas. Mae'n fwy o waith am lai o arian.

Rydw i'n cynaeafu bob wythnos neu bythefnos. Mae bananas yn well nag unrhyw gnwd arall ar gyfer cynaeafu rheolaidd. Rydych chi'n derbyn incwm gydol y flwyddyn. Dyna pam mae bananas mor boblogaidd fel cnwd sy'n dod ag arian. Fe fyddai'n anodd dod o hyd i unrhyw beth i gymryd ei le."

Masnach Deg

"Y peth da am gymryd rhan yn Masnach Deg yw'r premiwm cymdeithasol rydyn ni'n ei gael. Llynedd fe brynon ni gadeiriau gyda'n cyfran ni. Cyn hynny, pan fydden ni'n cynnal cyfarfodydd roedd yn rhaid i bawb sefyll ar eu traed.

Rydw i'n gofyn i bobl i brynu mwy o fananas Masnach Deg a dechrau rhoi pwysau ar archfarchnadoedd sydd ddim yn prynu nwyddau Masnach Deg. Mae'r farchnad nawr mor fach i nwyddau Masnach Deg mae angen i ni gael mwy o archfarchnadoedd i'w prynu. Petaen ni'n medru cynhyrchu mwy fe fydden ni'n cael mwy o incwm.